Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

## Canolfan Eni, Ysbyty Ystrad Fawr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 18 a 19 Mehefin 2025

Dyddiad cyhoeddi: 19 Medi 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn:0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80633-402-5

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ............ 5
2. Crynodeb o'r arolygiad ............ 6
3. Yr hyn a nodwyd gennym ............ 9
   - Ansawdd Profiad y Claf ............ 9
   - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ............ 15
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ............ 19
4. Y camau nesaf ............ 23

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ............ 24

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............ 25

Atodiad C – Cynllun gwella ............ 26

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yng Nghanolfan Eni Ysbyty Ystrad Fawr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 18 a 19 Mehefin 2025. Uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd yw hon, heb staff meddygol ar y safle, sy'n cynnig genedigaethau risg isel yn ogystal â gofal cynenedigol ac ôl-enedigol. Mae wedi'i lleoli yn Ysbyty Ystrad Fawr.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan fenywod neu eu teuluoedd a chwblhawyd wyth gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth yn cael gofal urddasol, parchus ac wedi'i deilwra at eu hanghenion unigol. Roedd y Ganolfan Eni yn darparu amgylchedd croesawgar a chartrefol, ac roedd y staff yn dangos tosturi a phroffesiynoldeb drwy gydol yr amser. Roedd iechyd yn cael ei hybu mewn ffordd ragweithiol, ac roedd adnoddau dwyieithog ar gael. Roedd yn amlwg bod proses cynllunio gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn ar waith, a bod mynediad amserol i ofal yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i'r broses o gyflwyno gwybodaeth am fynediad i wasanaeth y tu allan i oriau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Gwella cysondeb arwyddion ym mhob rhan o'r ysbyty i sicrhau bod arwyddion clir yn arwain at y Ganolfan Eni
- Adolygu a gwella'r protocolau cyfathrebu er mwyn cyrraedd y Ganolfan Eni y tu allan i oriau
- Ystyried lleoliad yr uned adfywio newyddenedigol i sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas eu cynnal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd yn amlwg bod y gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn, a bod dewisiadau geni yn cael eu cefnogi a'u dogfennu
- Roedd gweithgareddau hybu iechyd ac adnoddau dwyieithog wedi'u hintegreiddio'n effeithiol
- Roedd protocolau trosglwyddo effeithiol a gofal amserol ar waith
- Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo, gyda threfniadau ymgysylltu da â chymunedau.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Dangosodd y Ganolfan Eni ymrwymiad cryf i ddiogelwch ac effeithiolrwydd clinigol. Roedd y prosesau rheoli risg yn gadarn, ac roedd y mesurau atal heintiau yn cael eu dilyn yn effeithiol. Roedd y gweithdrefnau diogelu yn glir ac roedd y staff yn eu deall yn dda. Roedd y cyfarpar a'r meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n briodol, ac roedd cofnodion electronig yn cefnogi darpariaeth gofal diogel ac effeithlon.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Parhau i weithio tuag at roi Safonau Unedau Bydwreigiaeth ar waith yn llawn.
- Adolygu mesurau diogelwch oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr asesiadau risg a'r trefniadau cynllunio gofal yn fanwl ac wedi'u dogfennu'n effeithiol
- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar weithdrefnau brys, gan gynnwys gwagio'r pwll geni
- Roedd y gydymffurfiaeth â'r weithdrefn ddiogelu yn uchel, ac roedd y staff yn deall y gweithdrefnau'n dda
- Roedd y cyfarpar a'r meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel a'u gwirio'n rheolaidd
- Roedd y trosglwyddiadau i'r uned obstetreg yn amserol ac wedi'u cydlynu'n effeithiol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd aelodau'r tîm arwain yn y Ganolfan Eni yn amlwg, yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Roedd strwythurau llywodraethu ar waith, ac roedd y staff yn teimlo'n hyderus i godi pryderon. Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn uchel, ac roedd y morâl ymhlith y staff yn gadarnhaol. Roedd yn amlwg bod awydd i wella ansawdd a gweithio mewn partneriaeth ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Parhau i adolygu ac atgyfnerthu'r strwythurau arwain
- Sicrhau bod prosesau llywodraethu digonol ar waith i gefnogi cwmpas darpariaeth y gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-arweinwyr a rheolwyr bydwreigiaeth
- Roedd prosesau llywodraethu ar waith i fonitro digwyddiadau a llywio gwelliannau
- Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol ac Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad yn gryf
- Roedd ymgysylltiad a morâl y staff yn gadarnhaol, gyda chyfraddau absenoldeb oherwydd salwch a swyddi gwag isel

- Roedd prosesau gwella ansawdd a gweithio mewn partneriaeth yn cael eu hyrwyddo.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan bobl a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn.  Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur.

Yn ychwanegol at y sylwadau a gafwyd yn yr arolygon a gwblhawyd, cyfarfu'r tîm arolygu â menywod a'u teuluoedd yn yr uned ar adeg yr arolygiad. Dywedodd pob un ohonynt wrthym eu bod yn hapus, ac roeddent yn canmol lefel y gofal roeddent yn ei gael.

### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd**
Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd ddwyieithog yn cael ei harddangos ym mhob rhan o'r uned er mwyn rhoi gwybod i fenywod a'u teuluoedd sut y gallant aros yn iach yn ystod beichiogrwydd ac wrth roi genedigaeth. Roedd hyn yn cynnwys hysbysfyrddau â gwybodaeth am iechyd meddwl, geni egnïol a biomecanweithiau yn ogystal â gwybodaeth am ddosbarthiadau a sioeau teithiol sy'n hybu beichiogrwydd iach.

Roedd gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ar gael, yn ogystal â chymorth i fwydo ar y fron gan fenter Baby Friendly, a gwybodaeth am ddosbarthiadau a oedd ar gael i fenywod beichiog i wella eu ffitrwydd yn ystod beichiogrwydd. Roedd dosbarthiadau ioga cynenedigol yn cael eu cynnal am ddim ac roedd nifer o bobl yn eu cwblhau. Roedd y menywod yn cael cynnig mynd i glinig “Almost There” yn ystod camau olaf eu beichiogrwydd i drafod pryderon a chamau gweithredu cadarnhaol a allai wella iechyd a chyfforddusrwydd tuag at ddiwedd y beichiogrwydd.

Roedd y system cofnodion mamolaeth electronig a ddefnyddir yn sicrhau y gellir anfon gwybodaeth am iechyd cleifion mewn perthynas â chamau beichiogrwydd yn electronig at fenywod yn ystod camau priodol eu beichiogrwydd.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, ac roedd y gwaharddiad hwn yn cynnwys e-sigaréts/anwedd.

**Gofal urddasol a pharchus**

Dywedodd yr holl bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad o'r Ganolfan Eni wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd.

Clywsom y staff yn ymddwyn yn gwrtais, yn ystyriol ac yn barod i helpu wrth gynnal trafodaethau sensitif er mwyn sicrhau na allai neb arall eu clywed. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i'r arolwg fod preifatrwydd ac urddas menywod yn cael eu cynnal.

Roedd y Ganolfan Eni yn cynnig amgylchedd croesawgar, ystafelloedd hygyrch a phyllau geni. Roedd cyfleusterau ensuite ym mhob un o'r ystafelloedd geni.

Gwelsom fod posibl cael cyfarpar adfywio yn yr ystafelloedd, ond nid y ddyfais adfywio. Roedd yr uned adfywio newyddenedigol ar gael y tu allan i'r ystafelloedd geni a, pe bai angen, byddai'r staff yn mynd â'r newydd-anedig i ffwrdd oddi wrth y fam i'w adfywio. Er nad oedd lleoliad yr uned yn bell, rhoddodd y staff wybod i ni y gellid gadael y drysau ar agor fel y gallai'r fam weld y broses adfywio a'i babi. Gall hyn arwain at faterion yn ymwneud ag urddas a phreifatrwydd.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu lleoliad yr uned adfywio newyddenedigol er mwyn lliniaru'r posibilrwydd o beryglu urddas menywod pe bai angen ei defnyddio.**

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod eu dewisiadau geni unigol wedi cael eu trafod a'u dilyn yn unol â'r dewisiadau a nodwyd ganddynt. Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i'n harolwg staff fod y bobl yn cael eu hysbysu am y penderfyniadau am eu gofal, a'u bod yn cael eu cynnwys ynddynt.

Roedd bydwraig profiad y claf yn y gwasanaeth i gydgysylltu a sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed a'i gynrychioli wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod gwasanaeth Myfyrio ar Enedigaethau ar gael i unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth a'i bartner a oedd wedi rhoi genedigaeth yn ardal y bwrdd iechyd, a oedd yn rhoi cyfle iddynt rannu eu profiadau o wasanaethau mamolaeth a myfyrio arnynt.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion mamolaeth electronig, gwelsom fod trafodaethau am y cyfnod esgor, genedigaeth, meddyginiaethau lleddfu poen a dewisiadau bwydo yn cael eu dogfennu. Dywedodd y bydwragedd wrthym fod dewisiadau menywod yn cael eu blaenoriaethu lle y bo'n bosibl, a'u bod yn cynnal

trafodaethau â'r Fydwraig Ymgynghorol ynghylch rhoi genedigaeth drwy beidio â chydymffurfio â'r canllawiau er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n dewis gwneud hyn yn meddu ar y wybodaeth lawn. Lle y bo'n bosibl, gellir rhoi cynllun ar waith i leihau'r risgiau. Dywedodd y bydwragedd wrthym eu bod yn fodlon ar eirioli dros ddewisiadau'r menywod.

Caiff dosbarthiadau addysgu rhieni eu cynnig yn y Ganolfan Eni. Gall y menywod a'u partneriaid geni fynychu'r dosbarthiadau hyn i'w helpu i baratoi ar gyfer y cyfnod esgor a genedigaeth eu babi. Mae'r bydwragedd yn mynd â menywod a'u partneriaid geni o gwmpas yr uned i'w hyrwyddo fel opsiwn rhoi genedigaeth i'r rhai sy'n gymwys yn unol â'r canllawiau rhoi genedigaeth, ac i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu hopsiynau rhoi genedigaeth.

Roedd nifer o fydwragedd arbenigol yn yr uned i gefnogi teuluoedd yr oedd angen cymorth ychwanegol neu arbenigol arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys y fydwraig iechyd meddwl a oedd hefyd yn rhoi cymorth i fenywod sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl isel i gymedrol. Gwelsom fod llwybrau gofal unigol a llwybrau gofal ychwanegol ac eiriolaeth i fenywod ag anawsterau yn y meysydd hyn a meysydd eraill.

## Amserol

**Gofal amserol**

Dywedodd y menywod wrthym fod y staff yn barod iawn eu cymwynas ac y byddent yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod holl anghenion y cleifion yn cael eu diwallu ac roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod hyn yn digwydd.

Bydwragedd cymunedol yw'r staff sy'n bresennol yn y Ganolfan Eni yn ystod oriau'r dydd, ac maent yn defnyddio'r ganolfan fel eu safle gwaith. Nid oes unrhyw staff yn bresennol dros nos fel arfer. Disgrifiodd y staff y trefniadau ar gyfer gofal y tu allan i oriau lle byddai bydwraig gymunedol ar alwad yn cyrraedd yr uned i helpu yn ystod genedigaeth y tu allan i orai pe bai angen. Er i ni weld rhywfaint o hysbysiadau a oedd yn disgrifio'r trefniadau hyn, ychydig iawn o wybodaeth am y broses hon oedd i'w gweld ar wefan y bwrdd iechyd. Pan wnaethom siarad â'r menywod, gwnaethant rannu'r heriau a'r dryswch ynghylch cael mynediad i'r ganolfan wrth aros am fydwraig. Cadarnhaodd y bydwragedd cymunedol eu bod wedi wynebu problemau wrth ddefnyddio eu pasys ysbyty y tu allan i oriau.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r systemau a'r broses gyfathrebu mewn perthynas â chael mynediad i'r Ganolfan Eni y tu allan i oriau i sicrhau nad oes unrhyw oedi o ran gofal ac i osgoi unrhyw ddryswch.**

Mae canllawiau a gweithdrefnau clir ar waith yn y Ganolfan Eni ar gyfer trosglwyddo gofal mewn modd amserol i uned obstetreg, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn yr uned a oedd yn cynnwys yr amseroedd trosglwyddo o'r Ganolfan Eni i uned obstetreg. Cawsom ein sicrhau bod trosglwyddiadau yn cael eu hintegreiddio i systemau blaenoriaeth Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Hefyd, yn ystod trafodaethau â'r staff, cadarnhawyd bod cydberthnasau gwaith cadarnhaol â staff yr uned obstetreg yn ogystal â staff Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wrth ymgynghori ar drosglwyddiadau gofal a pharatoi ar eu cyfer.

Roedd system effeithiol ar waith ar gyfer cofnodi ac adolygu'r holl drosglwyddiadau gofal o'r Ganolfan Eni i'r Uned Obstetreg. Roedd yr amseroedd trosglwyddo yn cael eu monitro ac roedd unrhyw drosglwyddiadau “y tu hwnt i'r llwybr”, er enghraifft sgôr AGPAR[1] gwael, yn cael eu cofnodi ar system cofnodi digwyddiadau Datix. Esboniwyd bod y staff yn rhoi gwybod am unrhyw oedi o ran trosglwyddiadau er mwyn dysgu gwersi a/neu nodi cyfleoedd a gollwyd. Byddai unrhyw bryderon adrannol yn cael eu huwchgyfeirio, a chaiff unrhyw oedi o ran trosglwyddiadau eu cofnodi, eu rheoli ac ymchwilir iddynt.

Cynhelir cyfarfod adolygu trosglwyddiadau bob yn ail fis i adolygu'r holl drosglwyddiadau ac i sicrhau eu bod yn briodol ac yn amserol, lle mae nodiadau ar gael ac y caiff y gwersi a ddysgwyd eu rhannu.

Roedd y bydwragedd y gwnaethom siarad â nhw yn croesawu'r diweddariad i'r cofnodion cleifion mamolaeth electronig a ddefnyddir ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd a dywedwyd wrthym fod apwyntiadau'n cael eu hamserlennu'n awtomatig o fewn y system hon yn unol â'r canllawiau mamolaeth cenedlaethol. Roedd hyn wedi gwella effeithlonrwydd ac wedi sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu trefnu mewn modd amserol.

Defnyddir Sgoriau Rhybudd Cynnar Mamolaeth (MEWS) i nodi pan fo angen trosglwyddo gofal i uned dan arweiniad meddyg ymgynghorol mwy priodol er mwyn cefnogi'r beichiogrwydd a'r enedigaeth. Roedd adnodd sgrinio am sepsis priodol yn cael ei ddefnyddio drwy'r system cofnodion cleifion electronig. Roedd yr adnodd hwn yn helpu i nodi cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis.

---

[1] Prawf a gynhelir ar fabanod newyddenedigol yw'r sgôr AGPAR. Mae'r prawf hwn yn gwirio curiad calon y babi, ffyrfder y cyhyrau, ac arwyddion eraill er mwyn nodi a oes angen darparu gofal meddygol ychwanegol neu ofal brys.

## Teg

**Cyfathrebu ac iaith**

Roedd amrywiaeth o arwyddion yn yr ysbyty yn cyfeirio pobl o fynedfa'r ysbyty / maes parcio at y Ganolfan Eni. Gwelsom nad oedd yr arwyddion ar gyfer y Ganolfan Eni wedi'u geirio'n gyson. Gwelsom yr arwyddion "Mamolaeth", "Canolfan Eni", "Uned Eni", ac "Ystafell Eni" yn yr ysbyty. Gallai'r enwau gwahanol ddrysu'r rhai sy'n mynd i'r Ganolfan Eni gan arwain at oedi o ran cael gofal o bosibl.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr arwyddion ar gyfer y Ganolfan Eni yn gyson ac yn glir er mwyn sicrhau nad yw pobl yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r uned mewn modd amserol ac i helpu i wella eu profiad cyffredinol.**

Roedd yn bosibl adnabod aelodau o staff y Ganolfan Eni sy'n siarad Cymraeg gan eu bod yn gwisgo bathodynnau Iaith Gwaith. Gwelsom ychydig o wybodaeth ddwyieithog ar yr hysbysfyrddau i gleifion yn yr ardal i gleifion allanol cynenedigol yn ogystal ag ar wefan y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn sicrhau bod gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gynnig i'r menywod a'u teuluoedd. Dywedodd y staff wrthym y defnyddir Language Line i gysylltu ag unigolion lle bo angen, ac y gellid defnyddio iPad i gynnal apwyntiadau rhithwir gyda dehonglydd.

**Hawliau a Chydraddoldeb**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a'r angen i wneud addasiadau rhesymol, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Mae polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y bwrdd iechyd a oedd yn hygyrch i'r staff drwy Wisdom. Mae hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith i'r staff a nodwyd yn ystod trafodaethau â'r staff fod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am y Ganolfan Eni yn cael ei chyflwyno i bob unigolyn sy'n rhoi genedigaeth sy'n bodloni'r meini prawf a'r canllawiau ar roi genedigaeth. Dywedodd y staff wrthym am ffyrdd y maent yn ymgysylltu â chymunedau amrywiol a mwy difreintiedig er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr hyn sydd ar gael yn y Ganolfan Eni ac i gynyddu'r amrywiaeth ymhlith y bobl sy'n rhoi genedigaeth a theuluoedd sy'n defnyddio'r ganolfan. Gwnaethom nodi bod y defnydd o wirfoddolwyr sy'n cefnogi gwaith y grŵp BABI [2](Gwella Genedigaethau a

---

[2] Grŵp cymorth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw Grŵp BABI.

Beichiogrwydd) ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd yn enghraifft o arfer da canmoladwy. Dywedwyd wrthym fod nifer o'r gwirfoddolwyr newydd yn siarad amrywiaeth eang o ieithoedd a'u bod yn gallu rhoi adborth ar wasanaethau o'u safbwynt nhw, yn ogystal â chyrraedd cymunedau nad ydynt wedi ymgysylltu â gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd yn y gorffennol.

Mae'r Ganolfan Eni wedi'i lleoli ar lawr cyntaf yr ysbyty ac mae lifft ar gael i gyrraedd y ganolfan. Roedd yr holl goridorau a oedd yn arwain at y Ganolfan Eni, a choridorau'r ganolfan ei hun, yn llydan, yn glir ac yn daclus.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**
Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd prosesau a meini prawf clir ar waith a oedd yn cael eu rhannu'n effeithiol er mwyn lliniaru risgiau a sicrhau bod menywod a oedd yn dymuno rhoi genedigaeth yn y ganolfan yn bodloni'r meini prawf a'r canllawiau neu yn cael cynnig apwyntiad â'r Fydwraig Ymgynghorol i drafod eu hachos, asesu'r risgiau a lliniaru'r risgiau hynny lle y bo'n bosibl.

Roedd y cofnodion mamolaeth a welsom wedi cael eu cwblhau'n electronig ac o safon dda. Cadarnhaodd y cofnodion fod gwaith cynllunio gofal yn hybu diogelwch y cleifion. Roedd asesiadau risg yn cael eu nodi'n awtomatig drwy'r system ac yn annog y fydwraig i'w cwblhau yn ystod yr apwyntiad cyntaf. Roedd y cofnodion a welsom yn nodi y caiff atgyfeiriadau electronig eu gwneud pan fo angen.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant a gallant ddisgrifio'r broses ar gyfer gwagio'r pwll geni a'r cyfarpar a ddefnyddir i sicrhau diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r pwll. Roedd cyfarpar ar gyfer gwagio'r pwll geni mewn argyfwng ar gael yn yr ystafelloedd â phwll geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn ystod genedigaeth ddŵr. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod y Ganolfan Eni yn lân yr olwg, yn daclus, nad oedd unrhyw annibendod yno a'i bod wedi'i dodrefnu i safon dda ac y gellir ei glanhau'n effeithiol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin a gwelsom fod technegau hylendid dwylo da ar waith. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn er mwyn i'r staff allu edrych arnynt i'w hatgoffa. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r Ganolfan Eni.

**Diogelu plant ac oedolion**

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y bwrdd iechyd i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol i bob aelod o'r staff a gwelsom fod lefelau cydymffurfiaeth yn uchel iawn. Roedd pob aelod o staff y Ganolfan Eni yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd a oedd ar gael ar system TG a rennir. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y gweithdrefnau y byddent yn eu dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu.

Roedd y broses cadw cofnodion clir ar ddiogelu yn cael ei hategu gan y system cofnodion electronig a'r broses orfodol o gwblhau gwybodaeth am ddiogelu.

Gwnaethom ystyried amgylchedd yr uned a gwelsom fod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod babanod yn ddiogel yn yr uned. Roedd mynediad i'r Ganolfan Eni wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagor heb bàs staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo unigolion i fynd i mewn ac allan o'r ganolfan.

Cadarnhaodd y staff fod babanod a gaiff eu geni yn y Ganolfan Eni yn aros yn yr uned am gyfnod byr fel arfer, weithiau am rai oriau yn unig. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd bandiau enw babanod yn cael eu defnyddio fel mater o drefn. Dywedodd y staff wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd nad oedd y babanod yn treulio llawer o amser yn yr uned. Roedd diffyg bandiau enw babanod ar bob babi a gaiff ei eni yn peri risg o ran diogelwch y babanod, yn enwedig gan fod nifer cynyddol o bobl yn defnyddio'r ganolfan fel hwb ar gyfer beichiogrwydd. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad a chadarnhaodd yr arweinwyr ar unwaith y byddai pob babi a gaiff ei eni yn y Ganolfan Eni yn cael band enw ni waeth am faint o amser y bydd yn ei dreulio yn y ganolfan. **Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A yr adroddiad hwn.**

Nid oedd ymarfer herwgydio babanod wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y Ganolfan Eni. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch-reolwyr a dywedwyd nad oedd cynnal yr ymarfer hwn yn briodol gan mai nifer fach o enedigaethau oedd yn cael eu cynnal yn y ganolfan, tua phedair genedigaeth y mis. Dywedwyd hefyd nad oedd cynnal yr ymarfer yn briodol ar hyn o bryd gan mai dim ond am gyfnod byr mae teuluoedd yn y ganolfan.

**O ystyried y cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r Ganolfan Eni, rhaid i'r bwrdd iechyd gwblhau adolygiad llawn o'r mesurau diogelwch sydd ar waith yn y Ganolfan Eni pan fo nifer y genedigaethau'n isel. Dylid cynnal ymarfer herwgydio pan fo nifer y genedigaethau'n cynyddu. Rhaid i'r holl wersi a ddysgwyd o'r adolygiad a'r ymarfer dilynol gael eu rhannu â'r staff a dylid lliniaru'r risgiau'n unol â hynny.**

**Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Wrth arsylwi ar y staff ac yn ystod trafodaethau â nhw, gwelsom fod cyfarpar a dyfeisiau meddygol priodol yn y Ganolfan Eni i ddiwallu anghenion y bobl a oedd yn defnyddio'r ganolfan.

Roedd y pyllau geni yn cael eu glanhau ar ôl iddynt gael eu defnyddio ac roedd amserlen ar gael i'r staff ei dilyn.

Wrth arsylwi ar y staff ac yn ystod trafodaethau â nhw, gwelsom fod cyfarpar a dyfeisiau meddygol priodol yn y Ganolfan Eni i ddiwallu anghenion y menywod a'u teuluoedd.

Cadarnhaodd y ddogfennaeth a welsom fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfarpar i sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio. Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol. Gwelsom fod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn yn ddyddiol.

**Rheoli meddyginiaethau**
Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi pob meddyginiaeth yn ddiogel, gan gynnwys storio a gwirio cyffuriau a reolir. Disgrifiodd y bydwragedd system a ddefnyddir i wirio a chylchdroi stoc.

Gwelsom dystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n ddyddiol er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

## Effeithiol

**Gofal effeithiol**
Mae'r Ganolfan Eni yn defnyddio hunanasesiad Safonau Unedau Bydwreigiaeth sy'n cynnwys fframwaith strwythuredig er mwyn helpu i gwblhau'r hunanasesiad a gwella unedau mamolaeth. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth hunanasesu’r Ganolfan Eni a nodwyd gennym fod y gwaith i gwblhau'r safonau yn mynd rhagddo.

**Rydym yn argymell y dylai'r bwrdd iechyd barhau i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn gweithio tuag at gyrraedd y Safonau Unedau Bydwreigiaeth.**

**Maeth a hydradu**
Yn ystod ein harolygiad, ni welsom y gwasanaeth yn gweini bwyd. Roedd cyfleusterau dŵr a the a choffi ar gael ym mhob ystafell yn y Ganolfan Eni. Dywedodd y staff wrthym fod bwyd poeth ar gael drwy gyfleusterau'r ysbyty a bod bwyd oer ar gael yn hwylus pan fo angen.

**Cofnodion cleifion**
Gwnaethom edrych ar chwe set o gofnodion clinigol. Ar y cyfan, gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cadw i safon dda a'u bod yn hyrwyddo dewisiadau priodol y cleifion. Roedd y cofnodion yn glir, ar ffurf electronig ac yn cynnwys asesiadau risg perthnasol, gan gynnwys asesiadau ar y risg o gwympo a gwybodaeth am ddiogelu.

## Effeithlon

**Effeithlon**
Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn dangos bod nifer y genedigaethau wedi gostwng yn y ganolfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cadarnhaodd y staff bod nifer y genedigaethau yn y gymuned wedi cynyddu, a bod ymdrechion sylweddol yn cael eu gwneud i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau sydd ar gael yn y Ganolfan Eni yn y gymuned. Roedd hyn yn arfer canmoladwy. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod dosbarthiadau cynenedigol yn cael eu cynnal, gan gynnwys ioga cynenedigol, addysg i rieni yn ogystal â sawl clinig.

Mae timau bydwragedd cymunedol yn defnyddio'r Ganolfan Eni fel eu safle gwaith, sy'n eu helpu i gwblhau galwadau dyddiol a rhannu galwadau. Mae'r bydwragedd cymunedol ar alwad ar gyfer pob genedigaeth yn y cartref yn ardal bwrdd iechyd Aneurin Bevan a genedigaethau yn y Ganolfan Eni. Dywedodd y bydwragedd y gwnaethom siarad â nhw eu bod o'r farn bod defnyddio'r Ganolfan Eni fel eu safle gwaith yn gweithio'n dda.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**
Roedd strwythur rheoli ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Dywedodd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynd at eu rheolwyr bydwreigiaeth, ei bod yn hawdd mynd at yr uwch-arweinwyr, eu bod yn gyfeillgar ac yn garedig.

Roedd uwch-dîm rheoli bydwreigiaeth ar waith (yn wahanol i fyrddau iechyd eraill) ac mae'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am nifer fawr o enedigaethau, ond dim ond nifer fach o'r rhain sy'n cael eu cynnal yn y Ganolfan Eni hon.
Cadarnhaodd uwch-arweinwyr eu bod yn ystyried gwneud newidiadau strwythurol gan mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw'r unig ardal yng Nghymru heb Gyfarwyddwr Bydwreigiaeth.

**Dylai'r bwrdd iechyd barhau i adolygu, diweddaru, cyfleu ac ymgysylltu ag unrhyw newidiadau i'r strwythurau arweinyddiaeth i sicrhau y caiff gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd eu cynrychioli'n briodol ar lefel strategol a bod staff mamolaeth yn cael eu cefnogi.**

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd prosesau ar waith i fonitro digwyddiadau difrifol a themâu sy'n deillio o adroddiadau Datix a gweithredu arnynt. Mae arweinydd llywodraethu mamolaeth wrth ei swydd, a dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i recriwtio ar gyfer swyddi gwag ychwanegol ym maes llywodraethu.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y capasiti llywodraethu yn ddigonol i gefnogi'r gwasanaeth.**

Roedd y staff yn teimlo'n hyderus y gallant godi pryderon a gwnaethant gyfeirio at ddiwylliant cadarnhaol mewn perthynas â chofnodi ar Datix a dysgu o ddigwyddiadau. Esboniodd uwch-arweinwyr y broses ar gyfer cofnodi digwyddiadau, ymchwilio iddynt a rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Caiff unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau eu rhannu â phob aelod o'r staff yn brydlon ac mewn ffordd gadarnhaol. Byddai unrhyw themâu neu dueddiadau'n cael eu nodi fel rhan o'r broses. Roedd yn gadarnhaol nodi bod arweinwyr y Ganolfan Eni yn cymryd rhan weithredol wrth lunio, adolygu a chloi adroddiadau Datix.

Gwnaethom siarad â'r Fydwraig Ymgynghorol, goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwragedd a'r bydwragedd arbenigol arweiniol. Dywedwyd wrthym y gallai'r staff ofyn am gyngor ganddynt a'u bod wrthi'n arwain y gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion newydd a'u rhoi ar waith yn y gwasanaeth mamolaeth.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom gyfarfod â thîm ymroddedig a phroffesiynol a oedd yn darparu gwasanaethau mamolaeth i bobl yn amgylchedd y Ganolfan Eni yn ogystal â gofalu am fenywod a theuluoedd yn y gymuned. Mae bydwragedd cymunedol yn defnyddio'r Ganolfan Eni fel safle i gyflawni eu gwaith – caiff clinigau, cyrsiau cynenedigol ac ôl-enedigol a gweithgareddau hybu iechyd eu cynnal yn y lleoliad hefyd. Dywedodd y bydwragedd y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y rotas staff ar gyfer y Ganolfan Eni yn gweithio'n dda.

Gwnaethom edrych ar gyfraddau cwblhau Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad ar gyfer y staff bydwreigiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gyfradd hon yn 80% ar hyn o bryd ac roedd cynllun ar waith i wella'r gyfradd gydymffurfio ymhellach.

Gwnaethom edrych ar brosesau i fonitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd y cyfraddau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol cyffredinol ar lefel o 84% ar adeg ein harolygiad. Roedd y cyfraddau cydymffurfiaeth da yn dangos bod y systemau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer hyfforddiant staff yn y meysydd gorfodol hyn yn effeithiol a bod menywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r Ganolfan Eni yn cael eu trin gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda.

Mae'r lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant a'r cyfraddau salwch a swyddi gwag isel yn helpu i ddarparu gweithlu sefydlog a medrus sy'n diwallu anghenion menywod a'u babanod. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff ei fod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer ei rôl.

Drwy drafod â'r uwch-reolwyr ac adolygu rotas y staff a'u haciwtedd, gwelsom fod y lefelau staffio yn ymddangos fel petaent yn cael eu rheoli'n dda yn y gwasanaeth. Roedd trafodaethau â rheolwyr y ward yn ategu hyn. Cadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y cymysgedd sgiliau yn y Ganolfan Eni yn briodol, bod y morâl yn gadarnhaol a bod lefelau isel o absenoldebau oherwydd salwch.

Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod yn falch o'r hyfforddiant roedd yr uned wedi'i gwblhau ar hawliau dynol, caredigrwydd a thosturi a'r cyfleoedd i godi

ymwybyddiaeth ohonynt dros y pum mlynedd diwethaf. Nodwyd bod hyn yn arfer canmoladwy.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Roedd cyfleoedd yn cael eu harddangos i gleifion roi adborth. Roedd posteri a oedd yn cynnwys manylion am sut i wneud hyn wedi'u harddangos yn y Ganolfan Eni.

Roedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli cwynion, ac roedd hon yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Gwnaethom edrych ar system briodol ar gyfer monitro cwynion a phryderon a fyddai'n galluogi'r arweinwyr i nodi unrhyw dueddiadau a mynd i'r afael â nhw yn gyflym.

Dywedodd y bydwragedd wrthym eu bod wedi rhoi menter Greatix ar waith. Rhoddwyd y fenter hon ar waith i annog adborth cadarnhaol i staff sydd wedi mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau wrth eu gwaith.

Cadarnhaodd y Pennaeth Bydwreigiaeth fod ganddi bolisi drws agored er mwyn i'r staff roi adborth. Roedd Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd, Bydwraig Ymgynghorol a phartneriaid ac arweinwyr eraill hefyd ar gael i sicrhau y gall y staff rannu unrhyw bryderon.
Yn ystod yr arolygiad, roedd yr arweinwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn yr uned. Nid yw'r bwrdd iechyd yn defnyddio cofnodion mamolaeth ar ffurf papur. Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion electronig ar system gofal iechyd mamolaeth electronig sy'n galluogi'r staff i gofnodi pob digwyddiad mewn amser real wrth iddynt ddigwydd yn yr ysbyty, yn y gymuned neu yn y cartref. Roedd y cofnodion ar-lein hyn yn cael eu storio'n ddiogel a gallai'r staff gael gafael arnynt yn hawdd er mwyn cadw cofnodion, llunio asesiadau risg, archwiliadau a gwneud gwelliannau.

Roedd y system TG ddiogel ar gael i bob aelod o'r staff. Dywedwyd wrthym fod yr holl ganllawiau a pholisïau ar gael i'w gweld ar gronfa ddata i'r bwrdd iechyd cyfan y gall pob aelod o'r staff ei defnyddio.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**
Roedd y staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a chefnogi datblygiad y staff.

Cadarnhaodd yr arweinwyr fod Strategaeth Llesiant ar gyfer unedau mamolaeth y bwrdd iechyd wrthi'n cael ei datblygu a bod cynlluniau ar waith i arweinwyr clinigol gwblhau Hyfforddiant sy'n Ystyriol o Drawma a fydd yn helpu i gynnal sesiynau dadfriffio a chymorth llesiant.

## Dull systemau cyfan

**Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**
Dywedwyd wrthym am nifer o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth ymhlith staff y bwrdd iechyd a staff sefydliadau eraill. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys y cydberthnasau gwaith cadarnhaol rhwng y staff cymunedol a'r rhai sydd wedi'u lleoli yn uned obstetreg y bwrdd iechyd, sy'n golygu y gellir hwyluso achosion o drosglwyddo menywod yn ddiogel ac yn gyflym.

Nododd y staff hefyd fod cydberthnasau gwaith da ar waith gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Roedd staff Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cwblhau'r hyfforddiant PROMPT cymunedol yn y Ganolfan Eni ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag unrhyw adolygiadau mewn perthynas â throsglwyddo gofal.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Dywedodd aelodau o'r staff wrthym nad oedd band enw yn cael ei osod ar bob babi a gaiff ei eni yn yr uned | Risg i ddiogelwch | Codwyd hyn gyda'r rheolwyr ar y safle | Trafododd y rheolwyr hyn â phob aelod o'r staff a newidiwyd yr arfer ar unwaith |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Canolfan Eni Ysbyty Ystrad Fawr

## Dyddiad yr arolygiad: 18 a 19 Mehefin 2025

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad | | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Canolfan Eni Ysbyty Ystrad Fawr

## Dyddiad yr arolygiad: 18 a 19 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Nid oedd yr arwyddion mamolaeth ym mhob rhan o'r ysbyty yn gyson a byddai hyn yn arwain at oedi a phrofiad cleifion gwael. | Gwella cysondeb arwyddion ym mhob rhan o'r ysbyty i sicrhau bod arwyddion clir yn arwain at y Ganolfan Eni. | Ansawdd Profiad y Claf | Cyflwynwyd cais i'r adran gwaith ac ystadau ar 4 Awst 2025 i osod arwyddion ychwanegol a darparu cyfarwyddiadau cliriach i'r Ganolfan Eni. Bydd y weithred hon yn helpu'r staff, defnyddwyr y gwasanaeth, ac ymwelwyr i ddod o hyd i'r Ganolfan Eni yn haws ac mewn modd amserol ac i sicrhau y caiff amserlen y clinigau ei dilyn. | Rheolwr Cynorthwyol y Gwasanaeth | Erbyn 14 Hydref 2025 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | Dywedodd un claf wrthym ei bod wedi ei chael hi'n anodd cyrraedd y Ganolfan yn ystod y cyfnod esgor. Roedd y bydwragedd wedi wynebu problemau wrth ddefnyddio eu pasys y tu allan i oriau hefyd. | Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r systemau a'r broses gyfathrebu mewn perthynas â chael mynediad i'r Ganolfan Eni y tu allan i oriau i sicrhau nad oes unrhyw oedi o ran gofal ac i osgoi unrhyw ddryswch. | Ansawdd Profiad y Claf | Caiff arwyddion gwell eu gosod i sicrhau bod cyfarwyddiadau clir er mwyn cyrraedd y Clinig Cynenedigol a'r Ganolfan Eni. | Rheolwr Cynorthwyol y Gwasanaeth | Erbyn 14 Hydref 2025 |
| | | | | Caiff bathodynnau pob aelod o'r staff eu gwirio i sicrhau y gallant fynd i mewn i'r Ganolfan Eni yn briodol. Caiff problemau o ran bathodynnau eu nodi a'u huwchgyfeirio a'u hunioni ar unwaith. Dylid atgoffa'r staff i roi gwybod am unrhyw broblemau o ran eu bathodynnau yn brydlon i'r tîm rheoli. | Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol a Chynenedigol | 5 Awst 2025 |
| | | | | Bydd y Bydwragedd yn gwirio bathodynnau adnabod wrth gyrraedd y ganolfan i gwblhau'r hyfforddiant PROMPT cymunedol. | Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol a Chynenedigol | 5 Awst 2025 |
| | | | | Gwahoddir y menywod sydd wedi trefnu i roi geni yn y ganolfan eni i fynd ar | Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer | 30 Medi 2025 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | daith o amgylch yn lleoliad er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r uned. | Gwasanaethau Cymunedol a Chynenedigol | |
| | | | | Anfonwyd nodyn atgoffa at staff y ganolfan eni i gadarnhau lleoliad rhoi genedigaeth pan fo menywod yn gofyn am gyngor dros y ffôn y tu allan i oriau.<br>At hynny, byddwn yn parhau i atgoffa'r staff i gadarnhau'r lleoliad rhoi genedigaeth yn ystod galwadau y tu allan i oriau. | Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol a Chynenedigol | |
| **3.** | Nid oedd yr uned adfywio newyddenedigol wedi'i lleoli yn yr ystafelloedd geni. | Ystyried lleoliad yr uned adfywio newyddenedigol i sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas eu cynnal. | Ansawdd Profiad y Claf | Mae'r uned adfywio yn gludadwy a gellir ei symud i'r ystafell eni os bydd angen adfywio'r babi.<br><br>Byddai hyn yn sicrhau bod y babi yn cael cymorth ar unwaith wrth sicrhau nad yw'n bell oddi wrth y fam er mwyn cynnal eu hurddas a'u preifatrwydd. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd y gwasanaeth yn parhau i fonitro lefelau gweithgarwch geni, a chaiff adolygiad ei gynnal o ymarferoldeb cael uned adfywio ychwanegol i gefnogi proses adfywio yn yr ystafell os bydd nifer y genedigaethau'n cynyddu. | Pob aelod o staff y ganolfan eni | 5 Awst 2025 |
| | | | | Byddwn yn atgoffa'r staff o bwysigrwydd cynnal urddas a phreifatrwydd yn ystod ymyriadau brys, gan gynnwys defnyddio drysau a sgriniau'n briodol. | Pob aelod o staff y ganolfan eni | 12/08/25 |
| **4.** | Roedd y staff wedi dechrau gweithio i gyrraedd Safonau Unedau Bydwreigiaeth | Parhau i weithio tuag at roi Safonau Unedau Bydwreigiaeth ar waith yn llawn. | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | Dewiswyd BIPAB i dreialu'r achrediad ar gyfer 'Hunanasesu Unedau Bydwreigiaeth' (MUSA). | Pob aelod o'r staff / Bydwraig Ymgynghorol / Pob Uwch-reolwr Bydwreigiaeth | Parhaus gyda sgrymiau bob chwarter<br><br>Rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae staff yr uned a staff annibynnol wedi cwblhau'r ffurflen hunanasesu MUSA. Cafodd y canlyniadau eu coladu a'u rhannu â'r Byrddau Iechyd. | Pob aelod o'r staff / Bydwraig Ymgynghorol / Pob Uwch-reolwr Bydwreigiaeth | Wedi'i gwblhau |
| | | | Mae'r staff yn mynychu sgrymiau misol i drafod pynciau perthnasol e.e. athroniaeth gofal, llywodraethu, gofal nad yw'n dilyn yr argymhellion, ethos y gofal. | Pob aelod o'r staff / Bydwraig Ymgynghorol / Pob Uwch-reolwr Bydwreigiaeth | Parhaus ac yn fisol |
| | | | Caiff cylchlythyr MUSA ei rannu â'r staff yn rheolaidd. Caiff gwybodaeth am ddyddiadau gweithredu a'r safonau perthnasol ei rhannu. | Pob aelod o'r staff / Bydwraig Ymgynghorol / Pob Uwch-reolwr Bydwreigiaeth | Wedi'i gwblhau ac yn barhaus |
| | | | Cafodd crynodeb MUSA ei rannu yng nghyfarfod Grŵp Gwella a Sicrwydd Mamolaeth a Newyddenedigol ym mis Chwefror 2025. | Bydwraig Ymgynghorol | Fe'i rhannwyd ym mis Chwefror 2025 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | Roedd nifer isel o enedigaethau'n golygu bod y mesurau diogelwch wedi cael eu llacio mewn perthynas â chynnal ymarfer herwgydio blynyddol. Er mwyn sicrhau diogelwch parhaus, mae angen adolygu'r mesurau. | Adolygu mesurau diogelwch oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys<br>- Adolygu'r mesurau sydd ar waith pan fo nifer y genedigaethau'n isel<br>- Cynllunio ar gyfer cynnydd o ran niferoedd. | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | Caiff ymarfer bwrdd herwgydio ei roi ar waith i brofi'r protocolau presennol a nodi unrhyw fylchau yn yr ymarfer. | Pob aelod o'r staff<br><br>Uwch-reolwr Bydwreigiaeth | Erbyn 14 Medi 2025 |
| | | | | Caiff breichledau adnabod eu rhoi i famau a babanod er mwyn gwella diogelwch yn yr uned. Anfonwyd e-bost at y staff ar 6 Awst 2025 er mwyn rhoi sicrwydd. | Pob aelod o'r staff<br><br>Uwch-reolwr Bydwreigiaeth | 6 Awst 2025 |
| | | | | Caiff ymarfer herwgydio blynyddol ei ailgyflwyno os bydd nifer y genedigaethau'n cynyddu i sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â'r polisïau a'r canllawiau lleol yn unol â sefyllfaoedd amser real. | Pob aelod o'r staff<br><br>Uwch-reolwr Bydwreigiaeth | Bob blwyddyn |
| **6.** | Mae'r strwythur arweinyddiaeth ar gyfer mamolaeth yn fach ar draws y bwrdd iechyd ac roedd adolygiad ar waith i ystyried | Parhau i adolygu ac atgyfnerthu'r strwythurau arwain. | Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | Bydd BIPAB yn parhau i adolygu ac atgyfnerthu'r strwythurau arwain yn y gwasanaethau mamolaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella prosesau goruchwylio strategol a | Bwrdd Corfforaethol/ Gweithredol | Ionawr 2026 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| atgyfnerthu'r strwythur. | | | gwydnwch gweithredol. Mae trafodaethau am greu swydd Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi'u cynnal ar lefel gorfforaethol a gweithredol, sy'n adlewyrchu cydnabyddiaeth a rennir o'r angen i gynyddu capasiti yr uwch-arweinwyr.<br><br>Bwriedir i'r rôl arfaethedig hon ddarparu arweinyddiaeth ymroddedig a phroffesiynol iawn ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ym mhob rhan o'r sefydliad, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â blaenoriaethau cenedlaethol, safonau rheoliadol, a nodau trawsnewid gwasanaeth lleol. Byddai'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth yn gwasanaethu fel cyswllt | | |

hollbwysig rhwng timau clinigol a'r tîm arwain gweithredol, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth, atebolrwydd, ac arloesi.

Mae'r datblygiad hwn yn ogystal â chyflwyno swydd bydwraig ymgynghorol arall yn cyd-fynd â dyheadau ehangach y GIG i rymuso arweinwyr clinigol ac i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth yn cael eu harwain gan unigolion sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r awdurdod i ddylanwadu ar newidiadau i'r system gyfan.

Bydd rôl Band 8a yn y maes llywodraethu hefyd yn ychwanegu at strwythur arweinyddiaeth yr uwch-reolwyr.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7.** | Mae nifer y staff llywodraethu mamolaeth dynodedig sydd ar waith yn y bwrdd iechyd yn isel. | Sicrhau bod prosesau llywodraethu digonol ar waith i gefnogi cwmpas darpariaeth y gwasanaeth. | Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | Mae unigolion wedi'u cynnwys ar restr fer rôl Band 8a llywodraethu a bwriedir cynnal y cyfweliadau ar 14 Awst 2025.<br><br>Bydd y rôl hon yn gwella capasiti arweinyddiaeth a llywodraethu yn y gwasanaethau mamolaeth. Mae cymorth gweinyddol ar waith i helpu i sicrhau strwythur llywodraethu, gan sicrhau bod prosesau cydweithio a chwblhau dogfennaeth effeithiol ar waith a bod y gweithgareddau dilynol yn cael eu cynnal mewn modd amserol. | Pennaeth Bydwreigiaeth / Pennaeth Cynorthwyol Bydwreigiaeth | 14 Tachwedd 2025 |

## GORUCHWYLIO A MONITRO

Bydd y grwpiau canlynol yn goruchwylio ac yn monitro'r cynllun gwella: -

- Tîm yr Uwch-reolwyr
- Grŵp Rheoli Ansawdd
- Grŵp Gwella a Sicrwydd Mamolaeth a Newyddenedigol

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** **Jayne Beasley**

**Teitl swydd:** **Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Dyddiad:** **14 Awst 2025**